

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 2

Canlyniadau Gwers 2

- Ymarfer er mwyn gwella rhwyddineb a llif gweithrediadau
- Creu a pherfformio dawns mewn paru sy’n arddangos unffurfiaeth ac amrywiaeth o weithrediadau dawns
- Cynnal gweithgaredd dros gyfnod hwy

Adolygu

Defnyddiwch y g♦m cerfluniau cerddorol fel gweithgaredd cynhesu. Anogwch y disgyblion i sefyll yn llonydd gan ddal siapiau sy’n cyfleu’r naws hapus, gyffrous a hwyliog yr oeddent wedi’i hystyried yn ystod y wers ddiwethaf. Ailadroddwch y cymal dawns ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’ gan geisio cynnwys y syniadau ynghylch cyfathrebu effeithiol a nodwyd gennych yn ystod y wers ddiwethaf.

Archwilio

Dysgwch eich cymal dawns ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’ i bartner, ac yna mae’r partner yn dysgu ei gymal dawns i chi. Archwiliwch y broses o uno’r ddau gymal ♦’i gilydd, a phenderfynwch pa drefn sydd orau. Trafodwch pa weithrediadau, llwybrau, cyfeiriadau ac ati y mae’r ddau ohonoch yn eu hoffi gan gymryd syniadau o’r ddwy ddawns. Rhwch gynnig ar berfformio’r cymal hwy gan sicrhau eich bod yn symud ag unffurfiaeth. Gweler y Cerdyn Adnoddau - Unffurfiaeth. Archwiliwch wahanol gydberthnasau gofodol: a allwch chi sefyll ochr yn ochr, un o flaen y llall ac ati a pharhau i symud ag unffurfiaeth? Gweler y Cerdyn Adnoddau - Cydberthnasau Gofodol. Ewch ati i ymarfer cysylltu’r gweithrediadau fel eu bod yn llo’n esmwyth.

Trac 3 ar CD sain Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2.

Creu

Lluniwch gymal dawns ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’ ar gyfer p♦r a fydd yn symud ag unffurfiaeth. Dylai’r cymal gynnwys amrywiaeth o weithrediadau dawns a newidiadau o ran cyfeiriad, llwybrau ac ati.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at weithrediadau sy’n llo’n dda. Trafodwch yr hyn y mae rhwyddineb a llif yn ei olygu. Rhwyddineb o fewn symudiad, llif rhwng symudiadau. Beth sy’n gwneud y pethau hyn yn effeithiol? Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n symud yn effeithiol ag unffurfiaeth. Trafodwch yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i berfformio am gyfnod hwy. Beth sy’n digwydd i’w perfformiad? A’u cyrff?

Perfformio

Perfformiwch o flaen p♦r arall. Dylai’r p♦r sy’n gwylio’r perfformiad lenwi taflen werthuso. Gweler taflen werthuso 1.

Gwerthuso

Mae’r athro’n holi’r disgyblion ynghylch eu hymatebion ar y daflen werthuso er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion.

